Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol
Cultural Trust




# PECYN RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR


CROESO ........ 2

YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLAETH DDIWYLLIANNOL AWEN ........ 3

STRATEGAETH AWEN 2025-2030 ........ 4

EIN HEFFAITH MEWN RHIFAU ........ 5

EIN CYFLEOEDD I YMDDIRIEDOLWYR ........ 6

BOD YN YMDDIRIEDOLWR ........ 7

MANYLEB Y PERSON ........ 9

Y BROSES YMGEISIO ........ 10

# CROESO GAN Y CADEIRYDD, AVA PLOWRIGHT

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb mewn bod yn ymddiriedolwyr yn Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Fel Cadeirydd, rwy'n falch o arwain bwrdd ymroddedig ac angerddol sy'n rhannu ymrwymiad cryf i'n diben, 'gwneud bywydau pobl yn well'. Yn ganolog i hyn y mae ein huchelgais i greu cymunedau diwylliannol fywiog lle mae pawb yn teimlo y maent yn perthyn.

**Mae hon yn adeg gyffrous i ymuno ag Awen. Ar ôl ailagor Neuadd y Dref Maesteg a'r Muni ym Mhontypridd, ac â gwaith ailddatblygu gwerth £26 miliwn ar Bafiliwn y Grand ym Mhorthcawl ar y gweill ar hyn o bryd, rydym yn trawsnewid ein cynnig diwylliannol ac yn cryfhau ein swyddogaeth yng nghalon cymunedau ledled de Cymru.**

Bob blwyddyn, rydym yn ymgysylltu â dros filiwn o bobl drwy ein llyfrgelloedd, ein theatrau ein parc gwledig, ein rhaglenni hyfforddiant seiliedig ar waith i oedolion ag anableddau dysgu a'n rhaglenni allgymorth cymunedol. Pa un a yw rhywun yn mynd i berfformiad, yn ymweld â llyfrgell, yn mwynhau ein mannau gwyrdd, yn cymryd rhan mewn gweithdy neu'n datblygu sgiliau drwy ein cynlluniau hyfforddi, mae pob unigolyn a chymuned yn bwysig i ni.

Mae Awen yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, gan ymateb i bwysau ariannol, anghenion cymunedol sy'n esblygu a'r heriau ehangach sy'n wynebu'r sector elusennol a'r sector celfyddydau a diwylliannol. Mewn ymateb, rydym yn parhau i addasu ac arloesi, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio ein lleoliadau, o ymestyn ein cyrhaeddiad, o ddathlu diwylliant Cymru a'r Gymraeg, ac o hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae dod yn un o ymddiriedolwyr Awen yn cynnig cyfle gwerth chweil i gyfrannu at elusen a arweinir gan werthoedd ag effaith gymdeithasol, ddiwylliannol a chymunedol sylweddol. Bydd ymddiriedolwyr yn caffael gwybodaeth werthfawr am lywodraethu elusen aml-safle gymhleth ac is-gwmni masnachu dan berchnogaeth lwyr. Mae'r swydd hefyd yn cynnig amlygiad i raglenni adfywio diwylliannol mawr a datblygiadau cyfalaf, gan gynnwys prosiectau sy'n gwella asedau cymunedol pwysig ledled de Cymru.

Fel ymddiriedolwr, bydd cyfle i chi ddatblygu eich profiad lefel bwrdd, i ehangu eich dealltwriaeth o lywodraethu elusennol, gweithio partneriaeth, risg, cynhwysiant, cynaliadwyedd ac effaith gymdeithasol, a chwarae rhan ystyrlon yn y gwaith o lunio dyfodol Awen. Cynorthwyir ymddiriedolwyr trwy gyfnod cynefino, hyfforddiant, mentora a chyfleoedd i ymweld a chael profiad o'n lleoliadau yn bersonol, gan ganiatáu iddynt fagu hyder tra'n gwneud cyfraniad at y sefydliad a fydd yn para.

Rydym bellach yn chwilio am ymddiriedolwyr ag arbenigedd penodol ym meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyfathrebu Strategol, Digidol neu Adnoddau Dynol, Pobl a Datblygu Sefydliadol, i gynorthwyo'r bwrdd i ddarparu trosolwg effeithiol o'r sefydliad a'i is-gwmni masnachu. Rydym yn chwilio am unigolion a all gynnig gwybodaeth strategol, crebwyll cadarn a dull cydweithredol; pobl sy'n hyderus yn herio'n adeiladol ac sy'n gwbl ymroddedig i gynorthwyo llwyddiant hirdymor Awen.

Yn ogystal ag arbenigedd llywodraethu, rydym yn gwerthfawrogi unigolion sy'n cynnig cysylltiadau a rhwydweithiau cryf, ac sy'n gallu gweithredu fel eiriolwr dros Awen, gan helpu i adeiladu partneriaethau, i godi ein proffil ac i hwyluso cyfleoedd newydd i'r sefydliad. Rydym yn chwilio am bobl sy'n chwilfrydig, yn feddwl agored ac wedi ymrwymo i werthoedd Awen o fod yn greadigol, yn gydweithredol, yn rymusol ac yn deg. Nid oes angen i chi feddu ar yr atebion i ŷd, ond dylech fod yn barod i ofyn cwestiynau meddylgar, i wrando ar wahanol safbwyntiau ac i gyflwyno her adeiladol mewn ffordd gefnogol.

Rydym yn gwerthfawrogi ymddiriedolwyr sy'n gallu gweithio fel rhan o dîm amrywiol, yn parchu safbwyntiau a phrofiadau eraill, ac yn defnyddio eu gwybodaeth, eu rhwydweithiau neu eu profiad bywyd eu hunain i helpu i lunio dyfodol Awen. Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion o bob cefndir, yn enwedig y rhai a allai deimlo eu bod wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd.

Cefnogir ein hymddiriedolwyr drwy hyfforddiant a mentora, gan alluogi iddynt wneud cyfraniad ystyrlon sy'n para. Er bod y swyddi hyn yn wirfoddol, caiff treuliau parod rhesymol eu had-dalu i gefnogi hygyrchedd a chynhwysiant. Rydym yn gobeithio y gwnewch chi ystyried ymuno â ni ac edrychwn ymlaen at glywed gennych.



Ava Plowright
Cadeirydd

# YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLAETH DDIWYLLIANNOL AWEN

EIN **DIBEN**:

GWNEUD BYWYDAU POBL YN WELL

EIN **GWELEDIGAETH**:

CREU CYMUNEDAU DIWYLLIANNOL BYWIOG LLE MAE PAWB YN TEIMLO EU BOD YN PERTHYN

EIN **GWERTHOEDD**:

**CREADIGOL**

Yn archwilio ffyrdd newydd a chreadigol yn barhaus er mwyn gwella ein dull o weithredu, hyrwyddo arloesedd ac ymateb i'r byd sy'n newid.

**CYDWEITHREDOL**

Yn datblygu cysylltiadau cadarnhaol yn fewnol ac yn allanol â chydweithwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid.

**GRYMUSO**

Grymuso pobl i gyflawni eu potensial a gwneud i bethau da ddigwydd.

**TEG**

Ymdrechu i fod yn deg yn ein holl weithredu, gan barchu ein gilydd a'r gymuned.

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn elusen gofrestredig. Ein diben yw gwneud bywydau pobl yn well. Rydym yn gwneud hyn trwy roi cyfle i bobl a chymunedau gael profiad o ddiwylliant a'i fwynhau a chael eu hysbrydoli ganddo gyda'i gilydd.

Mae Awen yn gweithio gyda phartneriaid mewn sawl sector ac yn falch o'r tair partneriaeth awdurdod lleol â chynghorau Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Drwy'r partneriaethau hyn rydym yn gweithredu amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau diwylliannol, sy'n cynnwys theatrau, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, parc gwledig a dau brosiect seiliedig ar waith ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

Mae gan Awen is-gwmni masnachu dan berchnogaeth lwyr hefyd, Awen Trading Ltd, syn rheoli Tŷ Bryngarw gyda'r nod o gynhyrchu elw da sydd wedyn yn cael ei ddychwelyd fel Rhodd Cymorth i'r rhiant-elusen.

I ddarllen ein hadroddiadau diweddaraf, sef Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, Yr Adroddiad Strategol a'r Datganiadau Ariannol Cyfunol, ewch i wefan y Comisiwn Elusennau: https://register-of-charities.charitycommission.gov.uk/ a chwiliwch am elusen rhif 1166908.

# STRATEGAETH AWEN 2025-2030

Ar ôl lansio strategaeth bum mlynedd newydd Awen ym mis Hydref 2025, mae hon yn adeg arbennig o gyffrous i ymuno â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r strategaeth yn cyflwyno uchelgais eglur i greu cymunedau diwylliannol fywiog lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn, â blaenoriaethau'n cwmpasu'r amgylchedd, lleoedd bywiog, sgiliau a diben, cymunedau iach, a chynaliadwyedd sefydliadol. Bydd cyfle i ymddiriedolwyr newydd lunio sut mae'r strategaeth hon yn cael ei darparu yn ymarferol, gan gynnig gwybodaeth, her ac arbenigedd newydd ar gam hollbwysig yn natblygiad Awen.

Mae'r swydd hefyd yn cynnig y cyfle i fod yn rhan o sefydliad sy'n gwneud gwahaniaeth amlwg ledled de Cymru. Mae Awen yn ymgysylltu â dros filiwn o bobl bob blwyddyn drwy ei lyfrgelloedd, ei theatrau ei barc gwledig, ei raglenni hyfforddiant seiliedig ar waith i oedolion ag anableddau dysgu a'i raglenni allgymorth cymunedol. Ar yr un pryd, bydd Ymddiriedolwyr yn cael eu hamlygu i raglenni adfywio diwylliannol mawr, gan gynnwys y rhaglenni a gydnabyddir yn rhanbarthol, Neuadd y Dref Maesteg a'r Muni ym Mhontypridd a'r ailddatblygiad gwerth £26 miliwn presennol o Bafiliwn y Grand ym Mhorthcawl - prosiect sy'n garreg filltir i ni.

I'r rhai sy'n dymuno datblygu fel aelodau bwrdd, mae Awen yn cynnig profiad o lywodraethu elusen aml-safle cymhleth â phartneriaethau awdurdod lleol, gwasanaethau amrywiol, is-gwmni masnachu dan berchnogaeth lwyr a diben cymdeithasol cryf. Cynorthwyir ymddiriedolwyr trwy gyfnod cynefino, hyfforddiant, mentora a chyfleoedd i ymweld â lleoliadau Awen a chael profiad personol ohonynt, sy'n gwneud hwn yn gyfle gwerthfawr i gyfrannu at lwyddiant hirdymor Awen ac i fagu hyder fel arweinydd strategol.

## Ein Ffrydiau Strategol

Mae'r strategaeth yn amlinellu ein blaenoriaethau o dan bum prif ganlyniad. Hysbyswyd y rhain gan ofynion cyflawni ein prif arianwyr - awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a RhCT a Chyngor Celfyddydau Cymru - ochr yn ochr â blaenoriaethau creadigol a sefydliadol a fydd yn sicrhau llwyddiant Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn y dyfodol.

1. **Amgylchedd Iach**
   Amgylchedd iach lle bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o blaned lanach, mwy cydnerth sy'n cael ei deall yn well.

2. **Lleoedd bywiog i fyw a gweithio ynddynt**
   Lleoedd bywiog i fyw a gweithio ynddynt gydag economïau lleol sy'n tyfu, ymdeimlad balch o hunaniaeth a lle mae pawb yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial.

3. **Ymgysylltu ac ymdeimlad o bwrpas**
   Mae pawb yn cael y cyfle i deimlo'n ymgysylltiedig a byw gydag ymdeimlad o bwrpas neu ei ddatblygu, gyda mynediad at sgiliau, cefnogaeth a chymorth pan fydd eu hangen arnynt.

4. **Cymunedau Iach**
   Cymunedau iach lle mae pawb yn cael y cyfle i fyw bywydau iach.

5. **Sefydliad Cynaliadwy**
   Sefydliad cynaliadwy, ac ystyrir Awen yn gyflogwr cyfrifol, teg, dibynadwy ac yn bartner o ddewis.

2025-26

# EIN HEFFAITH MEWN RHIFAU

## DROS 1 MILIWN

o unigolion wedi ymgysylltu â'n gwaith

## 108,784

**Pobl a ddaeth i ddigwyddiadau mewn llyfrgelloedd**

Mae digwyddiadau mewn llyfrgelloedd yn hollbwysig gan eu bod yn dod ag aelodau llyfrgell newydd a phresennol i'r lleoliad, yn lleihau ynysigrwydd cymdeithasol, ac yn creu cyfleoedd i bobl ddysgu, cysylltu ac ymgysylltu â'u cymuned mewn ffyrdd ystyrlon.

## 382,382

**Eitemau llyfrgell a fenthycwyd.**

Helpu pobl i wella eu hiechyd corfforol a meddyliol drwy atal dirywiad gwybyddol, cynyddu empathi, datblygu eu geirfa, lleihau straen, cynorthwyo cwsg, lleddfu iselder, a mwynhau dihangdod drwy'r pleser a'r profiad o ddarllen.

## 515,081

**Pobl a ymwelodd â'r llyfrgell.**

Sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at rym a phleser darllen, gwybodaeth a syniadau, cael profiad o syniadau newydd, ymgolli mewn straeon hyfryd, cyfarfod â phobl newydd, tra'n cynnig ymdeimlad o le ar yr un pryd.

## 184,303

**Ymweliadau â Pharc Gwledig Bryngarw.**

Mae tystiolaeth yn dangos bod mwynhau'r awyr agored ac ymgysylltu â'n hamgylchedd naturiol yn cynnig llawer o fanteision cymdeithasol, corfforol ac iechyd meddwl, gan gyfrannu at Gymru iachach.

## 1,158

**Plant ysgol yn mynychu ein rhaglen addysg amgylcheddol ym mharc Bryngarw.**

Mae astudiaethau'n dangos bod dysgu yn yr awyr agored yn cael effaith gadarnhaol bellgyrhaeddol ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc, eu cyflawniad ehangach, eu lefelau cyrhaeddiad a'u datblygiad personol.

## 19 (WOOD-B)
## 34 (B-LEAF)

**Hyfforddeion yn Wood-B a B-Leaf.**

Oedolion o bob oed ag anableddau dysgu yw ein hyfforddeion sy'n cael eu cynorthwyo i wireddu eu potensial ac yn cael eu helpu i fyw bywydau hyderus, iach ac annibynnol mewn lleoliad seiliedig ar waith diogel a magwrol.

## 92,796

**Nifer y bobl a fynychodd ddigwyddiadau neu a gymerodd ran mewn gweithgareddau yn: Neuadd y Dref Maesteg; Neuadd y Gweithwyr Blaengarw; Y Met, Abertyleri; Y Miwni, Pontypridd; ac Awel y Môr, Porthcawl.**

Mae ein lleoliadau yn fannau cymunedau cynnes, croesawgar a hygyrch lle gall pobl o bob oed a chefndir gysylltu a mwynhau profiadau cymdeithasol ar y cyd.

## 289

**Tocynnau Hynt a roddwyd.**

Cynllun mynediad cenedlaethol yw Hynt sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru i wneud yn siŵr bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr ag amhariad neu ofyniad mynediad penodol, a'u gofalwyr.

## 10,251

**Nifer y bobl a fynychodd ddigwyddiadau Cymraeg neu ddwyieithog yn ein lleoliadau a'n llyfrgelloedd.**

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu ein rhaglen Gymraeg ei hiaith ar draws bob lleoliad, gan weithio mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith, ysgolion Cymraeg lleol a phartneriaid creadigol o bob cwr o Gymru.

## DROS £35 MILLION

**Ers 2015, gyda'n partneriaid, rydym wedi goruchwylio ceisiadau ac wedi sicrhau cyllid gwerth sawl miliwn o bunnoedd ar gyfer ailddatblygiadau a gwelliannau sylweddol i'n lleoliadau diwylliannol a threftadaeth.**

Mae'r rhain yn cynnwys: Llyfrgelloedd Betws, Pencoed, y Pîl a Sarn; Canolfan Addysg a Llesiant y Nyth ym Mharc Gwledig Bryngarw; Neuadd y Dref Maesteg; y Muni ym Mhontypridd; a Phafiliwn y Grand ym Mhorthcawl.

## 22,090

**Aelodau o'r gynulleidfa neu gyfranogwyr mewn prosiectau Llesiant Creadigol.**

Nod y gwaith hwn yw cael effaith iechyd, cymdeithasol a llesiant sylweddol ac sy'n para ar gymunedau, grwpiau ac unigolion. Rydym yn gwneud hyn drwy gynnig mynediad at weithdai creadigol, perfformiadau a chyfleoedd celfyddydau a dysgu awyr agored sydd fel rheol am ddim neu'n rhad.

# EIN CYFLEOEDD I YMDDIRIEDOLWYR

**Llywodraethir Awen gan fwrdd gwirfoddol o ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am arwain yr elusen a sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcanion.**

Mae ymddiriedolwyr yn cynnig amrywiaeth eang o sgiliau, priodweddau, profiad bywyd a gwybodaeth gymunedol sy'n eu galluogi'n gyfunol i ddarparu arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol a llywodraethu da.

Rydym yn chwilio am unigolion i ymuno â'r bwrdd sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol ym meysydd **Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyfathrebu Strategol, Digidol neu Adnoddau Dynol, Pobl a Datblygiad Sefydliadol**.

Bydd pob ymddiriedolwr yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o oruchwylio'r elusen a sicrhau ei bod yn cyflawni yn erbyn ei hamcanion elusennol, ei bod yn ariannol gynaliadwy, bod ganddi lywodraethiant cryf a'i bod yn diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad.

## YMRWYMIAD I AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein bwrdd ymddiriedolwyr yn gynrychioliadol i'n cymunedau ac yn cynnig amrywiaeth o syniadau i gefnogi'r hyn yr ydym yn ei wneud. Fel cyflogwr, rydym yn falch o'n statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd a'n cyfranogiad yn y presennol a'r gorffennol yn y cynllun Llwybr i'r Bwrdd.

Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd newydd ac arloesol o gyrraedd mwy o bobl, gan bwysleisio ein hunaniaeth a'n diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg a hyrwyddo amrywiaeth, tegwch, cynhwysiant a hygyrchedd, a dangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol.

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion o bob cefndir, yn enwedig y rhai a allai deimlo eu bod wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd.



# BOD YN YMDDIRIEDOLWR

Yn Awen, rydym yn gwerthfawrogi safbwyntiau a syniadau newydd, yn ogystal â phrofiad. Fel ymddiriedolwr, bydd eich amser a'ch cyfraniad at lwyddiant parhaus yr elusen yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Bydd pob cais yn cael ei drin yn gyfartal.

## RHAGOR O WYBODAETH AM SWYDDOGAETH YMDDIRIEDOLWR

Os hoffech ragor o wybodaeth am swyddogaeth ymddiriedolwr a llywodraethu elusennau ehangach, cymerwch olwg ar y Cod Llywodraethu Elusennau yn:
www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved-cc3a.cy

## YMRWYMIAD AMSER

Cynhelir cyfarfodydd bwrdd wyneb yn wyneb a min nos fel rheol. Mae opsiynau hybrid ar gael i gefnogi cyfranogiad pan fydd amgylchiadau yn caniatáu. Efallai y byddwch hefyd yn cael eich galw i fynychu 'cyfarfodydd arbennig' anabl iawn, naill ai ar-lein neu'n bersonol, os oes problem y mae angen ei thrafod ar unwaith neu sydd angen amser ychwanegol na fyddai cyfarfod bwrdd yn ei ganiatau. Ar gyfartaledd, mae'r bwrdd yn cyfarfod am tua 2.5 awr bob dau i dri mis. Disgwylir i ymddiriedolwyr dreulio amser yn darllen papurau'r bwrdd cyn y cyfarfodydd a chadw'n gyfredol â gweithgareddau Awen.

Mae gan Awen fwrdd Masnachu hefyd ac is-bwyllgorau eraill ar gyfer Risg ac Archwilio, a Phobl a Chynhwysiant. Mae'r mwyafrif o ymddiriedolwyr yn aelodau o un o'r rhain, yn dibynnu ar eu sgiliau a'u cyfleoedd datblygu, ond gallai ymddiriedolwyr gael eu gwahodd i fod yn bresennol fel gwyliwr yn y lle cyntaf.

Mae ymddiriedolwyr yn chwarae rhan lysgenhadol bwysig i Awen a disgwylir y byddwch yn mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Gwahoddir ymddiriedolwyr i ddod i ddigwyddiadau arbennig drwy gydol y flwyddyn, fel y pantomeim blynyddol ym Mhafiliwn y Grand, y noson ddathlu ar gyfer hyfforddeion B-Leaf a Wood-B, a digwyddiadau agor a phen-blwydd ar draws ein lleoliadau. Disgwylir iddynt hefyd ymgysylltu â'n gwaith a bod yn amlwg mewn lleoliadau, er enghraifft fel aelod o lyfrgell leol neu ymwelydd â'r theatr, ar adegau eraill.

> "Mae bod yn ymddiriedolwr yn Awen wedi fy amlygu i ystod amrywiol iawn o weithgareddau, o oruchwylio rhaglenni adfywio arwyddocaol i waith cymunedol sy'n ysbrydoli, fel B-Leaf. Mae gan Awen wreiddiau dwfn yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ac mae'r cysylltiad hwnnw wir yn dod i'r amlwg yn y swydd. Fel ymddiriedolwr, rwy'n cymryd rhan ar lefel y bwrdd a thrwy waith pwyllgor ac yn cael cyfle yn rheolaidd i fynd i ddigwyddiadau a gweld yr effaith yn bersonol."
>
> Daniel Taylor,
> cyn-Ymddiriedolwr Awen

> "Mae ymuno â'r Bwrdd wedi bod yn brofiad eithriadol o gadarnhaol. O'r cychwyn cyntaf, fe wnes i ganfod bod Awen yn groesawgar, yn gynhwysol ac yn wirioneddol gefnogol, mae'n lle yr ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn cyfrannu, beth bynnag fo'ch cefndir neu brofiad. Ceir diwylliant gwirioneddol o wrando, lle mae gwahanol safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi ac mae fy llais yn cael ei glywed, sy'n magu hyder ac yn annog trafodaeth adeiladol. Byddwn yn argymell y swydd yn gryf i unrhyw un sy'n dymuno gwneud gwahaniaeth yn ogystal â dysgu, tyfu a datblygu fel aelod o'r bwrdd ochr yn ochr â thîm angerddol a chydweithredol."
>
> Carly McCreesh,
> Ymddiriedolwr Awen presennol

## HYFFORDDIANT

I gefnogi eich datblygiad proffesiynol, bydd proses hyfforddi a chynefino gynhwysfawr yn cael ei darparu i bob ymddiriedolwr ar adeg eu penodi. Bydd hyn yn cynnwys mynediad at yr holl bolisïau a gweithdrefnau presennol, dogfennau llywodraethu, a chopïau o adroddiadau blynyddol a chyfrifon.

Gallai mentor – ymddiriedolwr profiadol arall ar y bwrdd – gael ei neilltuo i ymddiriedolwyr newydd hefyd i gynnig cymorth ac arweiniad am hyd at flwyddyn.

Ceir Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd blynyddol i ymddiriedolwyr hefyd, lle gallai cyrsiau hyfforddi a seminarau ychwanegol gael eu darparu, yn ogystal â chyfleoedd i ymweld a mwynhau ein lleoliadau yn bersonol.


## CYMORTH ARALL GENNYM NI

Cynhelir pob cyfarfod mewn ffordd gynhwysol, â seibiannau gorffwys a lluniaeth rheolaidd.

Gellir darparu addasiadau rhesymol penodol ar gyfer cyfathrebu.

## TREULIAU

Nid yw cyfraith elusennau yn y DU yn caniatau i ymddiriedolwyr elusen gael eu talu i fod yn ymddiriedolwr. Fodd bynnag, i gynorthwyo cynhwysiant, byddwn yn talu costau **teithio**, **cynhaliaeth** a **gofal plant**, i ddod i gyfarfodydd, diwrnodau cwrdd i ffwrdd, hyfforddiant ac ati, ***a byddwn yn talu'r rhain yn brydlon.***



# MANYLEB Y PERSON

Mae'r Comisiwn Elusennol yn amlinellu chwe phrif gyfrifoldeb ymddiriedolwyr:

1. Sicrhau bod eich elusen yn cyflawni ei ddibenion er budd y cyhoedd.
   Nid oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o fudd y cyhoedd, ond yn gyffredinol mae'n rhaid i'ch dibenion fod yn elusennol, yn fuddiol a bod o fudd i'r cyhoedd neu ran ddigonol ohono.
2. Cydymffurfio â dogfen lywodraethu eich elusen a'r gyfraith.
3. Gweithredu er budd pennaf eich elusen.
4. Rheoli adnoddau eich elusen yn gyfrifol.
5. Gweithredu â gofal a sgìl rhesymol.
6. Sicrhau bod eich elusen yn atebol.

Ynghyd â'ch sgiliau penodol, mae'r canlynol yn amlinellu ein disgwyliadau o holl ymddiriedolwyr Awen.

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu ar sail eich cyfraniad posibl at y bwrdd, nid eich profiad blaenorol yn unig. Ar y cyfan, mae parodrwydd i gydweithio yn rhan o fwrdd sydd wedi ymrwymo i helpu Awen i gyflawni ei nodau yn hanfodol.

- Wedi ymrwymo i weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd Awen. Yn gallu cyfathrebu hyn yn frwdfrydig i eraill.
- Angerdd at waith Awen ym meysydd y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a'r diwydiannau creadigol.
- Parodrwydd i ddysgu am ddyletswyddau cyfreithiol, rhwymedigaethau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac yn eglur ynghylch y gwahaniaeth rhwng swyddogaethau llywodraethu a swyddogaethau rheoli.
- Yn gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm amrywiol o ymddiriedolwyr.
- Yn parchu safbwyntiau a syniadau pobl eraill.
- Parodrwydd i gyfrannu profiad gwaith neu fywyd i helpu i hysbysu datblygiad strategaeth.
- Cyfathrebwr da â sgiliau rhyngbersonol da, sy'n gallu grymuso a herio'n gefnogol.
- Yn barod i ymgysylltu a chysylltiadau a rhwydweithiau, a/neu gyflawni swyddogaeth lysgenhadol er budd Awen, gan gynnwys mynd i ddigwyddiadau a gweithgareddau.
- Parodrwydd i ddysgu mwy am y cyd-destun y mae Awen yn gweithio ynddo.
- Yn gallu ac yn barod i ymroi'r amser angenrheidiol i'r swydd a pharodrwydd i deithio i ymweld â safleoedd a gweithgareddau Awen.

# Y BROSES YMGEISIO

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol gyda'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr cyn ymgeisio, anfonwch e-bost at izabella.evans@awen-wales.com i wneud trefniadau.

Gallwch ymgeisio gan ddefnyddio unrhyw un o'r fformatau canlynol:

**CV YSGRIFENEDIG**

CV a llythyr eglurhaol yn cynnwys sut rydych yn cyd-fynd â'n gofynion a'r hyn y byddech yn ei gynnig i'r bwrdd.

**FIDEO**

Drwy YouTube neu Vimeo.

**SAIN**

Drwy ffeil sain.

Anfonwch e-bost at izabella.evans@awen-wales.com gan ddefnyddio 'Cais Ymddiriedolwr' fel y llinell destun.

Os ydych yn anfon ffeil fawr, anfonwch hi drwy'r platfform rhannu am ddim WeTransfer, ond rhowch wybod i ni mewn e-bost fel y gallwn ei lawrlwytho.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **dydd Gwener 21 Awst.**

Cynhelir cyfweliadau **dydd Gwener 11 Medi.**

Os oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch neu'n gynhwysol i chi, rhowch wybod i ni.

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in wellbeing Gold
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Aur

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Silver
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Ariar

hyderus o ran anabledd ARWEINYDD

disability confident LEADER


Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com



Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.